

Stonidin Sam

CENWCH IM YR HEN GANIADAU

A bu'n etholiad cyffredinol unwaith eto ding ding-a-ling ding-a-ling. Cafodd etholwyr Prydain Fawr a gogledd-ddwyrain Iwerddon gyfle arall i ystyried yn ddwys a chyfrifol pa fodd y dymunant gael eu llywodraethu ding ding-a-ling a phwy maen nhw'i isio i'w cynrychioli yn y senedd yn San Steffan ding-a-ling-a-ling. Cafwyd aelod seneddol newydd sbon i Ynys Môn ac mae si ar led ei fod yn gallu rhoi geiriau wrth ei gilydd weithia i wneud brawddegau ohonyn nhw. Da iawn fo. Dyna'r union fath o ddeallusrwydd sydd ei angen i'r swydd. Daeth y pamffledi lliwgar disglair drwy'r post fel y tro blaen a'r tro cynt a'r troeon cyn hynny ding-a-ling ding-a-ling ac yn union fel y tro blaen a'r tro cynt a'r troeon cyn hynny ofer oedd disgwyl dim ond candifflôs ding-a-ling-a-ling.

Oedd debyg, roedd digon o son am ariannu addysg a heddluoedd ac ysbytai a heddluoedd a henoed a heddluoedd, a'r un hen fregliach diffaith diddiwedd am safon y gwasanaeth a gwerth y gwasanaeth. Mae'n amlwg mai dyna hyd a lled gwleidyddiaeth bellach, er ei bod yn dda meddwl bod yr henoed a'r heddluoedd, fel y gwiwerod coch, yn bethau i'w gwarchod.

Cafwyd digon o son yma a thraw am y bunt yn ei chyd-destun Ewropeaidd. Cafwyd digon o ffraeo ai dechreuad ai terfyn ar warineb fydd i'r ewro ei disodli a cholli wyneb pert ac ifanc Madam Corgwn oddi ar y papurau, rhywbeth sydd wedi bod arnyn nhw erioed (wel, ers 1963). Ond doedd neb debyg iawn am gydnabod mai dadlau am y trimins oeddann nhw. Doedd neb am fynd i grombil y mater i weld nad ydi o rithyn o wahaniaeth ai punt 'ta ewro y gelwir y pres tra bod y rheolaeth arnyn nhw ym macha'r detholedig leiafrif sy'n rhuthro ar bob cyfle i osod a newid eu gwerth a hynny wrth gwrs ar draul y mwyafrif bob tro. Doedd yr un gair am hynny yn y pamffledi.

Cafwyd digon o son yma a thraw am ffoaduriaid hefyd. Roedd yn amhosib cael y

gair heb gael y gair 'problem' ynghlwm ag o. Cafwyd digonedd o weiddi hiliaeth a phurdeb a'r geiriau achosion cyfiawn ac achosion ffug yn cyfiawnhau a chuddio pob casineb. Doedd neb am gydnabod mai dadlau am y trimins oedd hyn hefyd a doedd neb am fynd i wraidd ffoaduriaeth. Heb fasnach arfau mi fyddai'r syniad o ffoadur yn amhosib. A be wnâi New Labour wedyn? Neu'r un o'r lleill? Doedd yr un gair am hynny yn y pamffledi, nac wrth gwrs pwy maen nhw'n bwriadu'u bomio nesa i fwydo chwant y meistr a chymryd arnyn ddangos mor ddewr ydyn nhw.

Yn ôl pob arolwg, y prif reswm am ddifrawder enfawr ymhlith etholwyr, ar wahân i ddiffaethdra undonog y dadleuon o'r naill etholiad i'r llall, ydi bod seneddau a llywodraethau wedi mynd mor ddi-rym yn wyneb y cwmnïau rhyngwladol barus a'r banciau barus. Ofer oedd chwilio am grybwylliad o hynny nac am y cowtowio diurddas i Unol Daleithiau America yn yr un o'r pamffledi, heb son am gynnig ar ateb. Wel pwy fasa'n meddwl? Sy'n dod â ni yn nes adra. Mae son bod bwydfa (o ddiffyg gair mwy addas) McDonald's yn dod i Bwllheli. Mae'n debyg y bydd cais cynllunio, 'ran myrath yn fwy na dim at-all, debyg. Os oes ar bob llywodraeth yn y byd ofn y cwmni hwn drwy'u tinau ac allan pa obaith sydd i gynghorwyr Gwynedd?

Ond roedd rheswm arall hefyd am y bleidlais isel sy'n gymaint o fêl ar fysedd y cwmnïau a'r corfforaethau barus. Go brin bod etholiad cyffredinol mor farw â hwn wedi bod erioed o'r blaen. Mi ddibynwyd i bob pwrpas yn gyfan gwbl ar y teledu. Hanfod teledu ydi adloniant ffwrdd-a-hi. Dyna ydi hanfod rhaglenni newyddion hefyd erbyn hyn, yn gymysg â chyflwynwyr a gohebwy'r yn brolio'u hunain a'i gilydd. Mae bod y rhaglen ar gael ar y wê'n bwysicach na'i chynnwys, er mwyn dyrchafu mwy ar y cyflwynwyr. Hanfod teledu ydi bod y cwbl lot yn diffodd unwaith mae'r swits yn diffodd.